I Weinidogion Cymru,

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013: Dyletswyddau Adrodd**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

| | |
|---|---|
| Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol | **Map o'r Llwybrau Presennol (MLIP)** – ar ôl derbyn cymeradwyaeth Weinidogol o MLIP y cyngor ar 12 Awst '16, hyrwyddodd y cyngor a rhoddodd gyhoeddusrwydd i'r MLIP drwy'r wefan, defnyddiodd rwydweithiau presennol, cylchlythyrau staff, datganiadau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol etc.<br><br>**Map Rhwydwaith Integredig (MRhI)** – yn gynnar yn 2017 (Ionawr-Chwefror), manteisiwyd ar gyfle cychwynnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus/rhanddeiliad byr â ffocws i benderfynu pa deithiau teithio llesol a wneir ar hyn o bryd; pa rwystrau canfyddedig neu wirioneddol sy'n cyfyngu ar y gallu i deithio'n llesol; a pha lwybrau sy'n cael eu hystyried yn ddymunol i'w cynnwys ar yr MRhI.<br><br>Cafodd y cyhoedd, partneriaid cyflenwi, 'grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml' a phlant/pobl ifanc eu targedu'n benodol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys arolwg ar-lein, digwyddiad cymunedol ac arolygon 'codi dwylo' ysgolion.<br><br>Roedd yr ymdrechion hyn yn ategu gwaith yr oedd swyddogion eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â digwyddiadau cymunedol ac ymweliadau â nifer o ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol, lle'r oedd disgyblion wedi bod wrthi'n cymryd rhan weithredol mewn trafodaeth gweithdy am eu teithiau i'r ysgol a gweithgareddau eraill.<br><br>Bu'r cyngor yn hyrwyddo ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r holl weithgareddau ymgynghori MRhI drwy'r wefan, gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol, cylchlythyrau staff a chyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â mynychu nifer o Ysgolion Uwchradd, gan drafod yr MRhI gyda sawl grŵp oedran i glywed eu barn. |

| | |
|---|---|
| | *[Sylwer: cynhelir ail ymgynghoriad (12 wythnos) yn ystod haf 2017 gan roi cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid wneud sylwadau ar MRhI drafft y cyngor.]*<br><br>**Cyswllt Mewnol** – cyswllt parhaus â chydweithwyr o adrannau Cynllunio, Priffyrdd ac Addysg i annog gwaith hyrwyddo a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd.<br><br>**Map CNPT ar gyfer Beicwyr** – gan ddefnyddio data o MLIP cymeradwy'r cyngor, dosbarthwyd 'Castell Nedd Port Talbot – Map i Feicwyr' (a baratowyd mewn partneriaeth â chydweithwyr o Ddinas a Sir Abertawe) i amrywiaeth eang o adeiladau cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol.<br><br>**Tîm Diogelwch Ffyrdd** - Cynhaliodd y Tîm Diogelwch Ffyrdd nifer o weithgareddau i hyrwyddo Teithio Llesol, gan gynnwys[1]:<br><br>- **CycleCraft (Hyfforddiant beicio ar y ffyrdd):** 20 ysgol, 308 o ddisgyblion, disgyblion Blwyddyn 6.<br><br>- **Ymwybyddiaeth Feicio** (Blwyddyn 3 - Blwyddyn 6): 10 ysgol, 487 o ddisgyblion.<br><br>- **Hyfforddiant Sgwteri** (pob oedran): 4 ysgol, 63 o ddisgyblion.<br><br>- **Hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd** (Meithrin a Derbyn): 2 ysgol, 50 o ddisgyblion.<br><br>- **Beicio Cyfnod Sylfaen** (Blwyddyn 1 a 2): 4 ysgol gynradd, 241 o ddisgyblion.<br><br>- **Teithiau Cerdded Diogelwch Ffyrdd** (pob oedran): 4 ysgol gynradd, 423 o ddisgyblion.<br><br>- **Kerbcraft** (Hyfforddiant i Blant sy'n Cerdded - Blwyddyn 2): 33 o ysgolion, 875 o ddisgyblion.<br><br>- **Cwis Blynyddol:** Mae Diogelwch Ffyrdd yn cynnal cwis blynyddol ar gyfer disgyblion |

[1]Mae'r ffigurau ar gyfer 2016/17 yn dangos gostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol. Priodolir hyn i'r ffaith bod Cydlynydd Ysgolion Cynradd y cyngor, sy'n darparu hyfforddiant i bob ysgol gynradd, wedi cael ei benodi i rôl newydd ym mis Ionawr '17. Mae Cydlynydd newydd bellach wedi'i benodi a bydd yn dechrau'n llawn yn y rôl o fis Medi '17 ymlaen.

| | |
|---|---|
| | Blwyddyn 5, sy'n cael ei gynnig i bob ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br><br>*[Sylwer: mae ffigurau ysgolion yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd Medi 2016 - Gorffennaf 2017].* |
| Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | Cwblhau Llwybr Cyswllt Sgiwen i ffin weinyddol gyda Dinas a Sir Abertawe (a thu hwnt).<br><br>Cwblhau ailgyfeirio NCN4 trwy Barc Ynni Baglan.<br><br>Cwblhau ailgyfeirio NCN4 heibio Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.<br><br>*[Sylwer: cwblhawyd pob cynllun ym mis Mawrth 2017].* |
| Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau perthnasol yn y flwyddyn lawn flaenorol. | Llwybr Cyswllt Sgiwen i ffin weinyddol gyda Dinas a Sir Abertawe (a thu hwnt) - £192,000.<br><br>Ailgyfeirio NCN4 drwy Barc Ynni Baglan - £26,700<br><br>Ailgyfeirio NCN4 heibio Ysbyty Castell-nedd Port Talbot - £15,800. |

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant awgrymedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau theithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, a ariannwyd neu a ariannwyd yn rhannol gan drydydd partïon. | Dd/B |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Dd/B |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

Prif Weithredwr